

JAMES, DAVID EMRYS ('Dewi Emrys '; 1881 - 1952), gweinidog (A), llenor a bardd

Enw: David Emrys James
Ffugenw: Dewi Emrys
Dyddiad geni: 1881
Dyddiad marw: 1952
Priod: Cissie James (née Jenkins)
Plentyn: Dwynwen James
Rhiant: Mary Ellen James (née Jones)
Rhiant: Thomas Emrys James
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (A), llenor a bardd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Gerallt Jones

Ganwyd 26 Mai 1881 ym Majorca House, Ceinewydd, Ceredigion, yn fab i Thomas Emrys James, gweinidog (A) yn Llandudno ar y pryd, a Mary Ellen (ganwyd Jones), ei wraig, merch i gapten llong. Daeth y fam yn ôl i'r Cei i eni'r plentyn, a alwyd i ddechrau David Edward, ond mabwysiadwyd Emrys yn ddiweddarach. Pan oedd yn saith oed cafodd ei dad alwad i fugeilio eglwys Rhosycaerau, ger Abergwaun, ac yno y treuliodd ei blentyndod. Cafodd ei addysg gynnar yn ysgol Henner, plwy Llanwnda, ysgol baratoi W. S. Jenkins, ac ysgol uwchradd Abergwaun. Aeth i'w brentisio'n gysodydd a newyddiadurwr i swyddfa'r *County Echo* yn Abergwaun. Yn 1896 symudodd y teulu i Gaerfyrddin, a chafodd yntau gyfle i orffen ei brentisiaeth ar y *Carmarthen Journal*. Rhoes y golygydd, [Henry Tobit Evans](#), bob cefnogaeth iddo i barhau i lenyddiaeth ac adrodd ar lwyfannau fel y gwnaethai er yn ieuanc. Gwnaed ef yn is-olygydd ac yn olygydd colofn Gymraeg y *Journal* cyn ei fod yn 20 oed, a chafodd ei ryddhau i fynd yn fyfyrwr rhan amser yn ysgol yr Hen Goleg o dan [Joseph Harry](#). Yn y cyfnod hwn y dechreuodd bregethu. Derbyniwyd ef i'r Coleg Presbyteriaidd yn 1903. Bu am ychydig yn Eglwys Rydd y Cymry yn Lerpwl a sefydlwyd gan [William Owen Jones](#), cyn derbyn galwad i Fryn Seion, Dowlais, yn 1907. Oddi yno, yn 1908, aeth i eglwys Saesneg Buckley, Sir y Fflint. Ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno priododd â Cissie Jenkins yng nghapel (A) Saesneg Gaerfyrddin. Yn 1911 symudodd eto i eglwys Saesneg Gelliwastad, Pontypridd. Yr oedd yn un o bregethwyr huotlaf Cymru cyn Rhyfel Byd I; yna yn 1915 aeth i Loegr yn weinidog ar eglwys Finsbury Park yn Llundain, gan aros yno tan 1917. Ymunodd â'r fyddin ac erbyn 1918 diflannodd ei enw o'r *Congr. Yr. Bk*.

Aeth yn ddiofal yn ei berthynas â phobl, ac â'i eglwys, a threuliodd flynyddoedd fel pe'n ddiangor ac wedi ymwahanu oddi wrth ei deulu, - gwraig a dau fab. Ymsefydlodd drachefn yn 1940-41 gyda'i ferch, Dwynwen, yn ' Y bwthyn ', Talgarreg, Ceredigion, gan ymaelodi ym Mhisgah a phregethu'n achlysurol yn y cylchoedd cyfagos, ac yno y bu weddill ei oes.

Bu'n cynnal dosbarthiadau llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg yma a thraw tan fudiad addysg oedolion, a bu'r ' Bwthyn ' yn gyrchfan beirdd a llenorion. Yr oedd yn un o feistri cerdd dafod gan ennill ymysg gwobrau lawer yn yr Eisteddfod Genedlaethol, y goron yn Abertawe, 1926 ('Rhigymau'r ffordd fawr'), a'r gadair bedair gwaith - Lerpwl, 1929 ('Dafydd ap Gwilym'), Llanelli, 1930 ('Y Galilead'), Bangor, 1943 ('Cymylau amser'), a Phen-y-bont ar Ogwr, 1948 ('Yr alltud'). Bu'n olygydd ' Pabell Awen ' *Y Cymro* o 1936 i 1952.

Bu farw yn ysbyty Aberystwyth ar 20 Medi 1952, a chladdwyd ef ym mynwent Pisgah, Talgarreg. Codwyd maen coffa hefyd uwchlaw clogwyni Pwllderi, gogledd Penfro.

Cyhoeddwyd llawer o'i waith: *Rhigymau'r ffordd fawr*, (1926), *Rhymes of the road*, (1928), *Y cwm unig a chaniadau eraill*, (1930), *Ysgrifau* (1937), *Odl a chynganedd* (gwrslyfr ar gerdd dafod, 1938), *Beirdd y Babell* (gol.), (1939), *Cerddi'r bwthyn*, (1948), a llyfrynnau barddoniaeth: *Y gwron di-enw* (prydeust Eisteddfod Môn), (1922), *Y gân ni chanwyd* (prydeust ailorau Lerpwl), (1929), *Atgof* (prydeust ail-orau Pontypwl), (1924), *Daniel Owen* (awdl Eisteddfod Llundain), (1936).

Awdur

Y Parchedig Gerallt Jones, (1907 - 1984)

Ffynonellau

Eluned Phillips, *Dewi Emrys* (Llandysul 1971)

T. Llew Jones, *Dewi Emrys* (1981)

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Dewi Emrys](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [61313058](#)

Wikidata: [Q13127867](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

